Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Healthcare Inspectorate Wales

SICRHAU GWELLIANT TRWY AROLYGU ANNIBYNNOL A GWRTHRYCHOL

amddiffyn y cyhoedd trwy oruchwyliaeth statudol o fydwragedd

protecting the public through statutory supervision of midwives

# Adroddiad Archwilio Blynyddol yr Awdurdod Goruchwylio Lleol (AGLI) 2015-2016

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

OGL © Hawlfraint y Goron 2016 WG27408 ISBN digidol 978 1 4734 5729 4

# Cynnwys


1 Crynodeb Gweithredol …………………………………………….

2 Cyflwyniad ………………………………………………….....…...

3 Canfyddiadau'r Archwiliad ………………………………………..

4 Casgliad……………………………………………………………

5 Atodiadau …………………………………………………………..

## Crynodeb Gweithredol

**1.1** Sefydliadau o fewn ardaloedd daearyddol yw'r Awdurdodau Goruchwylio Lleol (AGLl), ac maen nhw'n gyfrifol am sicrhau bod bydwragedd yn cael eu goruchwylio'n statudol yn unol â'r safonau a osodir gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth o dan Erthygl 43 o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001, y ceir ei fanylion yn rheolau a safonau bydwragedd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2012). Yng Nghymru, gwneir swyddogaeth yr Awdurdod Goruchwylio Lleol gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ar ran Gweinidogion Cymru. Mae gan yr Awdurdod Goruchwylio Lleol (AGLl) yng Nghymru ddau Swyddog Bydwreigiaeth AGLl a benodwyd i gyflawni swyddogaeth yr AGLl ar ei ran.

1.2 Canolbwynt cyffredin yr oruchwyliaeth yn ystod y flwyddyn oedd datblygu model diwygiedig o oruchwyliaeth a fydd yn caniatáu i'r AGLl a'r byrddau iechyd gyflawni eu dyletswyddau statudol perthnasol. Y cefndir i'r angen am fodel goruchwylio newydd yng Nghymru oedd bod llawer o risgiau wedi'u dynodi yn y model presennol, yn ogystal â nifer gynyddol o ymddiswyddiadau ac absenoldebau ymhlith goruchwylwyr bydwragedd nad oeddent yn gallu cydbwyso gofynion cynyddol y rôl gyda gofynion eu prif swyddi.

**1.3** Aeth y model presennol yn fyw ar 4 Awst 2014, ac ym mis Hydref 2014 cyhoeddodd yr AGLl adroddiadau archwilio a oedd yn nodi'r materion i'w trosglwyddo a chynllun gweithredu i ddatblygu goruchwyliaeth. Yn ystod y 12 mis o weithredu, mae'r AGLl wedi gallu rhoi sicrwydd bod safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn cael eu bodloni drwy adrodd ar ddangosyddion perfformiad allweddol bob tri mis, cynnal cyfarfodydd goruchwylio a gwerthuso bob yn ail fis, a chynnal adolygiad llawn y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Mae'r holl brosesau archwilio hyn wedi cadarnhau bod yr AGLl yn bodloni'r holl safonau, a chafodd hyn ei adrodd yn adroddiad blynyddol Awdurdodau Goruchwylio Lleol Cymru gyfan 2014-15 a'r adroddiad archwilio.

**1.4** Pwrpas archwiliad blynyddol 2015-16 yw cadarnhau bod goruchwylwyr bydwragedd yn cyflawni eu swyddogaeth oruchwylio ym mhob bwrdd iechyd, mewn perthynas â safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, ac i wneud awgrymiadau er mwyn datblygu ymhellach a gwella'n barhaus. Bydd canfyddiadau'r archwiliad ledled Cymru yn dylanwadu ar gyfeiriad y gefnogaeth i fydwragedd pan fydd y newidiadau deddfwriaethol yn cael eu gwneud i adael goruchwyliaeth statudol.

**1.5** Mae'r AGLl yng Nghymru wedi diwygio a mireinio'r broses o archwilio gwasanaethau mamolaeth sy'n seiliedig ar gydymffurfio â Rheolau a Safonau Bydwragedd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2012). Cynhaliwyd yr archwiliad gan ddefnyddio dull tîm gyda mewnbwn gan gymheiriaid ac adolygwyr lleyg. Nod y broses archwilio oedd asesu a oedd timau goruchwylwyr bydwragedd yn cydymffurfio â safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Dyfernir bod safonau 'wedi cael eu bodloni', 'heb gael eu bodloni' neu 'angen gwelliant'. Pan nad yw safon yn cael ei bodloni, cytunir ar gynllun gweithredu ffurfiol gyda'r AGLl sy'n cael ei gyflawni o fewn amserlen y cytunir arni.

1.6 Bydd yr adroddiad hwn yn cyflwyno'r sefyllfa o ran goruchwyliaeth ym Mwrdd Iechyd Prifysgol

Caerdydd a’r Fro ar adeg yr archwiliad ac yn rhoi sicrwydd bod y model diwygiedig wedi cael ei roi ar waith yn llawn. Bydd yn rhoi uchafbwyntiau'r model goruchwylio presennol sydd wedi symud goruchwyliaeth yn ei blaen i fod yn ddarpariaeth brydlon, effeithiol, sydd o ansawdd uchel.

**1.7 Trosolwg**

Nid oedd y broses archwilio flynyddol a gyflwynwyd yn 2011 yn cael ei hystyried yn addas i'r diben erbyn hyn, gan fod goruchwylwyr bydwragedd bellach yn gweithio fel rhan o'r AGLI. Yn ystod 2014-15, roedd goruchwylwyr bydwragedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, a benodwyd i’r model diwygiedig o oruchwyliaeth, wedi gweithio tuag at gyflawni'r dangosyddion perfformiad allweddol a nodwyd ym manyleb gwasanaeth Diogelu Goruchwyliaeth at y Dyfodol. Cadwyd y pwyslais hwn er mwyn gwella a dylanwadu ymhellach ar newid arferion. Bydd cynnydd ar sail y dangosyddion perfformiad allweddol yn cael ei fonitro drwy’r Grŵp Monitro a Gwerthuso a thrwy Grŵp Arweinyddiaeth Uwch AGIC. Paratowyd adroddiadau bob tri mis a’u rhannu gyda phenaethiaid bydwragedd i fonitro cynnydd ymhellach ac i fynd i’r afael ag unrhyw rwystrau penodol i gynnydd.

Er bod yr AGLI wedi cydymffurfio â holl safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn ei Adroddiad Blynyddol a'r adroddiad archwilio a gyhoeddwyd ym mis Awst 2015, mae'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth wedi argymell y dylai pob bwrdd iechyd gael ymweliad archwilio unigol a chyflwyno'r canfyddiadau mewn adroddiad (CNB Hydref 2015).

Mae’r AGLI wedi bod yn eglur o’r cychwyn mai nod y broses archwilio yw cefnogi datblygiad parhaus trwy ddenu adnoddau a hyfforddiant priodol yn ôl y gofyn. Mae'r AGLI yn gweithio’n agos gyda chydweithwyr o bob cwr o Gymru a thu hwnt i ail-ddylunio’r broses archwilio ar gyfer y flwyddyn nesaf gan ei fod o’r farn y bydd craffu allanol ar yr AGLI yn hanfodol nawr bod goruchwylwyr yn gweithio’n uniongyrchol i’r AGLI. Gobeithiwn y bydd personél priodol o'r byrddau iechyd yn manteisio ar y cyfle i fod yn rhan o’r broses archwilio fel ffordd o ddarparu’r sicrwydd angenrheidiol i wasanaethau mamolaeth, i gyfarwyddwyr gweithredol a’r bwrdd bod goruchwyliaeth statudol yn cefnogi diogelwch y cyhoedd.

Caiff yr adroddiad hwn ei gyhoeddi maes o law ar wefan AGIC yn **www.hiw.org.uk/hafan**

## 2 Cyflwyniad

**2.1** Disgwylir i oruchwylwyr bydwragedd weithio yn unol â safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth i ymrymuso bydwragedd i ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol a thrwy hynny wella'r broses o amddiffyn y cyhoedd. Bob blwyddyn, mae'n ofynnol i'r Awdurdod Goruchwylio Lleol (AGLl) gyflwyno adroddiad blynyddol ysgrifenedig i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth i'w hysbysu am weithgareddau, materion allweddol, arfer da a thueddiadau sy'n effeithio ar wasanaethau mamolaeth yn ei ardal. Er mwyn bwydo i'r broses hon, bydd Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLl yn cynnal archwiliadau o wasanaethau mamolaeth yn ei ardal.

**2.2** Mae'r broses ar gyfer archwilio safonau'r AGLl yn defnyddio dull adolygu gan gymheiriaid mewn perthynas â holl safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ac yna ymweliad archwilio gan dîm yr AGLl i wirio tystiolaeth a gyflwynwyd ar sail safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Roedd y tîm adolygu'n cynnwys Swyddog Bydwreigiaeth penodol yr AGLl, o leiaf un adolygydd lleyg yr AGLl, a goruchwylydd bydwragedd profiadol o fwrdd iechyd cyfagos. Mae hyn yn galluogi dull tîm o archwilio ac yn cynnig cyfle ar gyfer adolygu a meincnodi gan gymheiriaid, yn ogystal â chefnogi'r drefn o rannu'r arferion gorau. Mae cynnwys adolygwyr lleyg yr AGLl yn y tîm yn sicrhau safbwynt y defnyddiwr trwy gydol y broses archwilio, a chroesawyd hyn ar bob lefel.

2.3 Cynhaliwyd yr ymweliad archwilio ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar ddydd Mercher, 4 Tachwedd 2015, fel y cynlluniwyd. Gwahoddwyd staff allweddol i fynychu ynghyd â thîm goruchwylio'r bwrdd iechyd (Atodiad A **– Rhaglen yr Archwiliad**). Bydd Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLl yn cynnal archwiliad pyramid tri misol yn ystod Chwarter 3 fel rhan o'r cylch archwilio blynyddol. Darparwyd adroddiadau adborth unigol i'r Cyfarwyddwr Bydwreigiaeth a'r Uwch Fydwraig yn syth ar ôl yr ymweliad er mwyn nodi meysydd o arfer da neu godi ymwybyddiaeth o feysydd oedd angen eu datblygu.

**2.4** Cynhaliwyd yr archwiliad blynyddol gan Sue Jose, Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLl, wedi ei chefnogi gan Julie Hurford, goruchwylydd bydwragedd profiadol o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Rebecca Lewis, goruchwylydd bydwragedd o Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, ac adolygwr lleyg yr AGLl Louise Woolley.

**2.5** Dechreuodd yr ymweliad archwilio gyda chyflwyniad byr gan Sue Jose ac fe'i dilynwyd gan gyflwyniad PowerPoint gan y goruchwylwyr bydwragedd, yn rhoi trosolwg o Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a'r gweithgareddau goruchwylio, ynghyd â llwyddiannau'r goruchwylwyr bydwragedd o ran arferion da. Yn ogystal, rhoddodd yr ymweliad archwilio gyfle i'r Cyfarwyddwr Nyrsio, uwch fydwraig, bydwraig risg, bydwraig pryderon, bydwragedd ymgynghorol, goruchwylwyr bydwragedd, bydwragedd, bydwragedd dan hyfforddiant a defnyddwyr gwasanaeth gwrdd a rhannu gwybodaeth ar oruchwyliaeth (**Atodiad B – Mynychwyr**).

## 3 Canfyddiadau'r Archwiliad

**Trosolwg o ganfyddiadau archwilio'r AGLI – nodi risgiau a gwireddu manteision**

| **Crynodeb o'r Prif Ganfyddiadau** | | |
|---|---|---|
| **Safon berthnasol yr AGLI/Bydwragedd** | **Risgiau/Rheolaeth allweddol** | **Canlyniad**<br>***Bodlonwyd, Ni Fodlonwyd* neu *Angen Gwelliant*** |
| **Rheol 4: Hysbysiad o Fwriad i Ymarfer** | Cyflwynir gwybodaeth gywir a hysbysiadau yn flynyddol, neu yn achos gweithwyr newydd, cyn bod bydwragedd yn dechrau gweithio.<br><br>Caiff cofnodion cronfa ddata'r AGLI eu cwblhau'n gywir ar gyfer bydwragedd sy'n gadael y sefydliad. | **Bodlonwyd –** roedd tystiolaeth o ddatganiadau misol ar gyfer hysbysiadau a gyflwynwyd ar gyfer dechreuwyr newydd ac o gwblhau bydwragedd sy'n gadael y sefydliad. |
| **Rheol 6: Cadw Cofnodion** | Mae bydwragedd yn cydymffurfio â systemau a ddyluniwyd i gadw cofnodion clinigol yn gywir ac yn ddiogel am 25 mlynedd. | **Bodlonwyd –** roedd tystiolaeth yn y mannau clinigol bod proses ar waith ar gyfer cadw cofnodion clinigol yn ddiogel am 25 mlynedd.<br><br>Mae'r tîm o oruchwylwyr bydwragedd yn ymwybodol o'r broses ar gyfer trosglwyddo cofnodion annibynnol ar gyfer bydwragedd. |
| **Rheol 8: Goruchwylydd Bydwragedd** | Caiff goruchwylwyr bydwragedd dan hyfforddiant eu recriwtio a'u cefnogi'n ddigonol yn dilyn cwblhau rhaglen paratoi goruchwylwyr bydwragedd yn llwyddiannus. | **Bodlonwyd –** cafodd dau oruchwylydd bydwragedd gefnogaeth, yn dilyn cwblhau'r rhaglen baratoi, ar ffurf cynllun tiwtoriaeth i gynorthwyo datblygiad goruchwylwyr bydwragedd sydd newydd eu penodi.<br>Cafodd proses ddewis ei chynnal yn ddiweddar ar gyfer rhaglen baratoi tymor yr hydref, yn unol â chanllawiau cenedlaethol Swyddogion Bydwreigiaeth Awdurdodau Goruchwylio Lleol y DU. |
| **Rheol 9: Adnoddau digonol o fewn y gymhareb a argymhellwyd** | Mae'r gymhareb o oruchwylwyr bydwragedd i fydwragedd yn parhau ar y gymhareb a argymhellir o 1:15. | **Bodlonwyd –** mae digon o adnoddau i gyflawni'r gymhareb a argymhellir o un goruchwylydd bydwragedd i 15 o fydwragedd. Caiff goruchwylwyr bydwragedd eu cefnogi'n dda i weithio ar draws pob maes yn y bwrdd iechyd.<br><br>Mynegwyd pryder gan y |

| | | |
|---|---|---|
| | Mae gan oruchwylwyr bydwragedd adnoddau digonol i'w cefnogi yn eu swyddi. | goruchwylwyr bydwragedd a gyfwelwyd yn ystod yr archwiliad eu bod nhw'n gweithio 0.6 cyfwerth ag amser llawn yn is na'r gymhareb a argymhellir am gyfnod cyn yr archwiliad tra eu bod nhw'n cefnogi bydwragedd, sydd ar raglen paratoi goruchwylwyr bydwragedd, trwy'r rôl diwtora.<br><br>Hyd yma, nid oes gan oruchwylwyr bydwragedd newydd fynediad at systemau technoleg gwybodaeth Llywodraeth Cymru. |
| **Rheol 9: Cydymffurfio â'r Adolygiad Goruchwylio Blynyddol** | Cynhelir Adolygiad Goruchwylio Blynyddol ar gyfer pob bydwraig i gasglu tystiolaeth ar y modd mae bydwragedd yn bodloni gofynion y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth er mwyn parhau i fod yn gofrestredig. | **Bodlonwyd –** 100% oedd y gydymffurfiaeth â'r Adolygiad Goruchwylio Blynyddol ar adeg yr ymweliad archwilio. |
| **Rheol 10: Proses ymchwilio goruchwylwyr bydwragedd** | Mae goruchwylwyr bydwragedd yn ymgymryd ag ymchwiliadau goruchwylio mewn ffordd deg, agored ac amserol.<br><br>Mae goruchwylwyr bydwragedd yn cynorthwyo bydwragedd i gyflawni'r argymhellion perthnasol o ran myfyrio, cynlluniau gweithredu lleol neu raglenni ymarfer AGLl. | **Bodlonwyd –** at ei gilydd, gwnaed ymchwiliadau goruchwylio mewn ffordd deg, agored ac amserol gyda chymorth goruchwylwyr bydwragedd i gyflawni'r argymhellion perthnasol.<br><br>Bydd yr AGLl yn parhau i gadw llygad ar amseroldeb ymchwiliadau. |

### 3.1 Darparu goruchwyliaeth effeithiol

Mae AGLl Cymru yn gyfrifol am benodi nifer briodol o oruchwylwyr bydwragedd i sicrhau bod gan yr holl fydwragedd sy'n ymarfer yng Nghymru fynediad at oruchwyliaeth. Mae Rheol 9 o reolau a safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth[1] yn ei gwneud yn ofynnol nad yw'r gymhareb goruchwylwyr bydwragedd i fydwragedd yn mynd y tu hwnt i 1:15 fel rheol, ond mae'n rhaid iddi, fel isafswm, adlewyrchu anghenion ac amgylchiadau lleol, heb danseilio diogelwch menywod.

Ar 31 Mawrth 2015, roedd 16 o oruchwylwyr bydwragedd amser llawn yn cael eu cyflogi, ac roedd 1,786 o fydwragedd wedi hysbysu'r Awdurdod Goruchwylio Lleol am eu bwriad i ymarfer bydwreigiaeth yng Nghymru, gan roi cymhareb o 1:11 i Gymru. Ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, roedd 271 o fydwragedd a 2.2 o oruchwylwyr bydwragedd cyfwerth ag amser llawn, gan roi cymhareb wedi'i haddasu o 1:11.

[1] Rheolau a Safonau Bydwragedd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2012)

### 3.1.1 Penodi goruchwylwyr bydwragedd, dad-ddethol, ymddiswyddo ac absenoldebau gyda chaniatâd

Ar adeg gweithredu'r model, penodwyd tri goruchwylydd bydwragedd, gan beri mai 2.2 goruchwylydd bydwragedd, cyfwerth ag amser cyflawn, oedd yn nhîm goruchwylwyr bydwragedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Ers mis Awst 2014, bu tri chylchdro o fewn y tîm. Cychwynnodd un goruchwylydd bydwragedd ar secondiad i swydd wag Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLl, a phenodwyd goruchwylydd bydwragedd o Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf i gymryd ei lle.

Yn ystod yr ymweliad, hysbyswyd y tîm archwilio bod y tîm o oruchwylwyr bydwragedd wedi bod yn gwneud eu rôl tra eu bod 0.6 person, cyfwerth ag amser llawn, i lawr ers i oruchwylydd bydwragedd roi'r gorau i'w rôl ym mis Medi 2015. Er mwyn cefnogi'r tîm o oruchwylwyr bydwragedd yn ystod y cyfnod hwn, cafodd y goruchwylwyr bydwragedd dan hyfforddiant eu rhyddhau gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro o'u prif rôl er mwyn gweithio mewn rôl diwtora. Mae'r goruchwylwyr bydwragedd dan hyfforddiant bellach wedi cwblhau'r rhaglen ac yn oruchwylwyr bydwragedd penodedig gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth oddi ar fis Tachwedd 2015.

Cynhaliodd yr AGLl broses ddewis ar gyfer y Rhaglen Paratoi Goruchwylwyr Bydwragedd derfynol, ar gyfer tymor yr hydref 2015, a bu dau ymgeisydd o Gaerdydd a'r Fro. Mae un o'r ymgeiswyr yn cael ei gefnogi i ymgymryd â'r rhaglen. Hefyd, mae dau ddarpar oruchwylydd bydwragedd ar gael i symud i'r rôl pe bai angen. At ei gilydd, bydd hyn yn sicrhau bod digon o adnoddau goruchwylwyr bydwragedd ar gyfer cynllun cylchol hyd fis Mawrth 2017, tra eu bod yn aros am arweiniad gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ar amserlen ar gyfer y newidiadau i ddarpariaeth goruchwyliaeth statudol.

### 3.1.2 Mecanwaith ar gyfer darparu mynediad parhaus at oruchwylydd bydwragedd

Mae Rheol 9[2] yn nodi’r gofynion ar gyfer goruchwylio bydwragedd, ac mae’n ofynnol bod gan bob bydwraig oruchwylydd bydwragedd penodol y mae’n cyfarfod ag ef o leiaf unwaith y flwyddyn ar gyfer adolygiad goruchwylio blynyddol. Yn ystod 2014-15, roedd y gyfradd gydymffurfio â chyfarfodydd yr adolygiad goruchwylio blynyddol yn 98% ar gyfartaledd ar draws y flwyddyn archwilio. 100% oedd y gyfradd ar adeg yr archwiliad o ran cydymffurfio â chyfarfodydd yr adolygiad goruchwylio blynyddol.

Roedd oddeutu hanner y bydwragedd y cyfwelwyd â nhw wedi cwblhau eu hadolygiad goruchwylio blynyddol mewn sesiwn goruchwyliaeth grŵp, ac roedd y rheiny a fynychodd goruchwyliaeth grŵp yn frwd ynghylch y sesiynau. Gwerthfawrogai bydwragedd gael amrywiaeth o fydwragedd o dimau ac amgylcheddau gwahanol yn rhan o'r broses. Un sylw a wnaed gan fydwraig i'r tîm archwilio oedd y dylai hwyluswyr goruchwyliaeth grŵp fod yn sensitif i anghenion yr holl fynychwyr oherwydd gallai rhai o'r materion a drafodir fod yn anodd i rai unigolion. Dylai'r

hwylusydd feddu ar y sgiliau i ymyrryd os y gwêl fod bydwraig yn anghyfforddus; bydd hyn yn sicrhau bod pob bydwraig yn elwa'n gyfartal ar yr amgylchedd grŵp.

Crybwyllodd y mwyafrif o'r bydwragedd fod mwy o fuddiannau i'r model goruchwyliaeth grŵp na'r model un i un blaenorol; buddiannau penodol oedd y gallu i ddysgu wrth ei gilydd, cael enghreifftiau o arferion da, a theimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rôl. Rhoddodd y goruchwylwyr bydwragedd enghreifftiau i'r tîm archwilio o faterion yr aed i'r afael â nhw drwy oruchwyliaeth grŵp, gan arwain at wella diogelwch y cyhoedd. Defnyddiwyd goruchwyliaeth grŵp hefyd er mewn sicrhau bod yr holl weithwyr yn dysgu'n briodol oddi wrth ddigwyddiadau clinigol. Dywedodd yr holl fydwragedd y cyfwelwyd â nhw fod y goruchwylwyr bydwragedd yn weledol ac ar gael yn hwylus, a bod y model presennol o oruchwyliaeth yng Nghymru wedi hwyluso hyn.

Ers gweithredu'r model newydd, darperir rota goruchwylwyr bydwragedd Cymru gyfan sydd ar alwad 24 awr i'r holl fydwragedd sy'n ymarfer yn ardal yr AGLl. Cynigia hyn fynediad 24 awr at oruchwylydd bydwragedd, ac mae'n sicrhau bod goruchwylydd bydwragedd ar gael i ferched sy'n defnyddio gwasanaethau mamolaeth, er mwyn cynnig cyfarwyddyd a chymorth (y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth 2012). Cynigir rhif cyswllt canolog a chaiff pob cyswllt – boed gan ddefnyddwyr gwasanaeth, aelodau'r cyhoedd neu fydwragedd – ei nodi ar ffurf SBAR (sef ffurf sy'n cofnodi sefyllfa, cefndir, asesiad, ac argymhellion unrhyw fater). Caiff y tueddiadau a'r themâu eu crynhoi bob mis, a rhoddwyd adroddiad chwe-misol i bob Pennaeth Bydwreigiaeth ym mis Ebrill 2015. Yn y 12 mis diwethaf, gwnaed 155 o alwadau i linell ar alwad 24 awr Cymru gyfan; o'r rhain, roedd 47 yn gysylltiadau o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. At ddiben cyngor clinigol a chymorth i fenywod/defnyddwyr gwasanaeth oedd y mwyafrif o'r galwadau a gofnodwyd (20). Roedd chwech o'r galwadau at ddiben gwybodaeth am wasanaethau mamolaeth yn gyffredinol, a chyfeiriwyd y galwadau yn briodol. Roedd gweddill y galwadau ar gyfer cyngor proffesiynol neu i adrodd digwyddiadau. Rhennir y cysylltiadau SBAR â'r Pennaeth Bydwreigiaeth a'r tîm goruchwylio bydwragedd lleol er mwyn iddynt ddilyn eu trywydd os oes angen.

Roedd archwiliad ffôn o'r cyfraddau ymateb ar alwad, a gynhaliwyd gan adolygwyr lleyg yr AGLl ym mis Ionawr 2015, wedi dod o hyd i'r canlynol:

- Rhoddodd switsfwrdd Ysbyty Athrofaol Cymru rif lleol, a dywedwyd wrth y galwr mai dyna'r rhif ar gyfer y goruchwylydd bydwragedd.
- Nid oedd meddygfa ym Mro Morgannwg yn gwybod am oruchwylwyr bydwragedd ac nid oeddent yn gallu darparu rhif cyswllt.

Daeth arolygydd lleyg yr AGLl i gyswllt â switsfwrdd Ysbyty Athrofaol Cymru er mwyn gofyn am fanylion cyswllt y goruchwylydd ar alwad. Trosglwyddodd y switsfwrdd y galwad i'r Uned

[2] Mae Rheol 9 o reolau a safonau bydwragedd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2012) yn nodi'r gofynion i oruchwylwyr bydwragedd.

dan Arweiniad Bydwreigiaeth, lle rhoddodd y fydwraig y rhif ffôn cywir, ar ôl oediad byr, gan esbonio mai rhif cenedlaethol oedd hwn a chan wirio mai dyna beth oedd ei angen.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn rhoi'r rhif ar alwad ar gyfer Cymru gyfan ar wefan ei wasanaeth mamolaeth. Mae hefyd yn bosibl dilyn dolen i wefan yr AGLl, i wefan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, ac i fforwm gwefan Awdurdodau Goruchwylio Lleol y DU am ragor o wybodaeth ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth a bydwragedd.

Cyfarfu swyddogion bydwreigiaeth yr AGLl bob tri mis gyda Phennaeth Bydwreigiaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a'r tîm lleol o oruchwylwyr bydwragedd i adolygu cydymffurfiaeth â safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth gan ddefnyddio cerdyn sgorio chwarterol. Cynhaliai'r tîm lleol o oruchwylwyr bydwragedd gyfarfodydd misol â'r Pennaeth Bydwreigiaeth i sicrhau bod cyfathrebu dwyffordd eglur yn bodoli ar bob agwedd o'r swyddogaeth oruchwylio. Mae'r AGLl yn cynnal cyfarfodydd rheoli perfformiad misol â swyddogion bydwreigiaeth o Gymru gyfan. Mae'r cyfarfod misol hwn, sydd â'r prif nod o reoli cydymffurfiaeth â'r dangosyddion perfformiad allweddol a nodir yn y fanyleb wasanaeth, hefyd yn galluogi goruchwylwyr bydwragedd i adeiladu tîm cydlynol ac i ffurfio rhwydwaith cefnogol. Roedd presenoldeb swyddogion bydwreigiaeth yr AGLl yn rhoi cyfle i gynnig cyngor a chefnogaeth ychwanegol i oruchwylwyr bydwragedd gyda materion gwasanaeth a allai fod yn berthnasol i amddiffyn y cyhoedd, yn ogystal â galluogi'r AGLl i oruchwylio goruchwylwyr bydwragedd wrth iddynt gynllunio a gweithredu eu cynlluniau gwaith blynyddol.

### 3.2 Cynnwys defnyddwyr gwasanaeth mewn goruchwyliaeth, a safbwynt adolygwyr lleyg yr AGLl

#### Crynodeb o ganfyddiadau'r adolygydd lleyg

Rôl yr adolygydd lleyg wrth archwilio oedd edrych ar safbwyntiau menywod a'u teuluoedd a ddefnyddiodd wasanaethau mamolaeth. Mae hyn yn adeiladu ar ganfyddiadau archwiliad 2014-15, a edrychodd ar brofiadau bydwragedd a menywod o ddefnyddio goruchwyliaeth. Siaradodd yr adolygydd lleyg â chwe menyw ar wardiau cynenedigol Ysbyty Athrofaol Cymru ac â chwe bydwraig a'r tîm o oruchwylwyr bydwragedd. Cafodd yr adolygydd lleyg hefyd gyfle i siarad â dwy fenyw feichiog yn y gymuned a oedd wedi datrys anawsterau oedd yn ymwneud â'u dewisiadau esgor.

Mae goruchwylwyr bydwragedd ar gael yn hwylus i fenywod. Mae'r dudalen sy'n ymwneud â goruchwylwyr bydwragedd ar wefan Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn canolbwyntio ar wybodaeth sy'n berthnasol i ddefnyddiwr gwasanaeth ac yn darparu'r rhif ffôn ar alwad cywir. Roedd yr ymwybyddiaeth o rôl goruchwylydd bydwragedd ymhlith defnyddwyr gwasanaeth benywaidd y siaradwyd â nhw yn yr ysbyty yn is, ac nid oedd yr un o'r menywod hyn yn

gyfarwydd â'r rôl. Ar ôl i'r rôl gael ei disgrifio iddynt, roeddent o'r farn bod goruchwylwyr bydwragedd yn adnodd gwerthfawr i fenywod. Roedd y defnyddwyr gwasanaeth yn fodlon iawn gyda safon y gofal a gawsant yn Ysbyty Athrofaol Cymru.

Gwelwyd tystiolaeth yn y gymuned gan un defnyddiwr gwasanaeth oedd wedi teimlo nad oedd ei dewis hi ar gyfer esgor wedi cael ei hwyluso'n wreiddiol. Yn hwyrach, ar ôl ymgynghoriad â bydwraig ymgynghorol, rhoddwyd cynllun ar waith iddi er mwyn iddi roi genedigaeth yn yr Uned dan Arweiniad Bydwreigiaeth, fel y gofynnwyd. Roedd defnyddiwr gwasanaeth arall wedi cysylltu â goruchwylydd bydwragedd yn dilyn genedigaeth flaenorol, drawmatig, ac roedd y sgwrs â'r goruchwylydd bydwragedd wedi tawelu ei meddwl ynglŷn â'r enedigaeth oedd ar ddod. Teimlwyd bod y ddau achos yn ategu'r effaith gadarnhaol a gaiff rôl y goruchwylydd bydwragedd ar brofiadau menywod o feichiogrwydd ac esgor.

Disgrifiwyd goruchwyliaeth yn dda iawn mewn clinigau cynenedigol a wardiau ôl-enedigol, a chyfeiriwyd mewn modd amlwg at rif ffôn ar alwad Cymru gyfan. Hefyd, roedd yr adolygydd lleyg yn medru siarad â bydwragedd a goruchwylwyr bydwragedd i gadarnhau canfyddiadau'r tîm adolygu o safbwynt person allanol. Mae byrddau arddangos goruchwylwyr bydwragedd ar gael yn gyhoeddus ym mhob ardal o'r gwasanaethau mamolaeth, ac maent yn cyd-fynd â'r ffurf ar gyfer Cymru gyfan. Rhoddir y rhif ar alwad cywir a cheir disgrifiad clir a defnyddiol o rôl y goruchwylydd bydwragedd. Roedd y daflen "Ydyn ni’n esgor ar wasanaeth da?" ar gael ar rai byrddau arddangos. Byddai sicrhau bod y daflen hon ar gael yn ehangach, a rhoi dolen iddi o wefan Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro, yn helpu i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o oruchwyliaeth.

Rhoddwyd pwyslais cryf ar ofynion ail-ddilysu, a deallai pob bydwraig beth fydd yn ofynnol a phryd bydd angen iddynt ail-ddilysu. Deallai'r bydwragedd beth oedd natur portffolios, ac roeddent yn teimlo'n abl i fedru cynhyrchu un. Rhoddodd y rhan fwyaf o fydwragedd enghreifftiau da o sut maen nhw'n cymhathu ac yn casglu adborth, ac yn myfyrio ar weithgareddau. Dynododd y tîm o oruchwylwyr bydwragedd fod ansawdd y portffolios yn gwella.

Roedd yr angen i gasglu pum darn o adborth yn hysbys i bob un a gyfwelwyd, ac roedd y bydwragedd wedi ystyried sut y byddent yn eu casglu. Dangosodd y bydwragedd, yn ddefnyddiol, y gellir casglu'r adborth hwn o gwynion yn ogystal. Mae'r tîm o oruchwylwyr bydwragedd wedi gweithio'n galed i sicrhau bod cwynion yn cael eu gweld fel 'rhodd' a'u bod yn ddefnyddiol ac yn cyfrannu at newidiadau ac arferion da, ac i groesawu hyn. Nododd yr adolygydd lleyg fod hyn yn gam cadarnhaol a fydd yn cefnogi'r staff bydwreigiaeth i gyflawni eu cyfrifoldebau proffesiynol.

Roedd tystiolaeth o ddarparu gwasanaeth cadarn, cefnogol ac arloesol i gefnogi menywod a bydwragedd.

Mae gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro bwyllgor cyswllt gweithgar ar gyfer y gwasanaethau mamolaeth. Yn anffodus, nid oedd cadeirydd Pwyllgor Cyswllt y

Gwasanaethau Mamolaeth yn medru bod yn bresennol ar ddiwrnod yr archwiliad. Hysbyswyd y tîm archwilio bod y tîm o oruchwylwyr bydwragedd yn mynychu cyfarfodydd Pwyllgor Cyswllt y Gwasanaethau Mamolaeth i dynnu sylw at faterion perthnasol o ran goruchwyliaeth.

### 3.3 Ymgysylltu â bydwragedd dan hyfforddiant

Rhoddodd y tîm o oruchwylwyr bydwragedd dystiolaeth o berthynas waith effeithiol â Phrifysgol Caerdydd. Cyfarfu'r tîm archwilio â chynrychiolydd o Brifysgol Caerdydd a bydwraig datblygu arferion Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, a gwnaethant gadarnhau bod cysylltiadau clòs sydd wedi eu hen sefydlu gyda'r tîm o oruchwylwyr bydwragedd. Mae'r bydwragedd dan hyfforddiant wedi trefnu sesiynau yn y brifysgol gyda'r tîm o oruchwylwyr bydwragedd er mwyn plannu'r syniad o oruchwyliaeth, a'i phwysigrwydd, wrth baratoi i gofrestru fel bydwraig.

Ers i'r goruchwylydd bydwragedd oedd yn gyswllt penodedig roi'r gorau i'w swydd, dynododd y brifysgol fod angen i oruchwylydd bydwragedd newydd gamu i'r rôl gyswllt er mwyn parhau â'r trefniadau llwyddiannus presennol. Rhoddwyd gwybod i'r tîm archwilio bod yr AGLl yn cyfrannu at ddatblygu cwricwlwm y brifysgol gan fod cynrychiolaeth gan oruchwylwyr bydwragedd yn y cyfarfodydd cynllunio cwricwlwm.

Gwahoddir bydwragedd dan hyfforddiant i fynychu sesiynau goruchwylio grŵp a phartïon te cadw cofnodion gyda'u mentoriaid clinigol er mwyn hybu eu gwybodaeth o arferion cynorthwyol i gyd-fynd â goruchwyliaeth statudol, ac maent yn gwneud hyn.

### 3.4 Y broses o gynnal ymchwiliad

Dechreuwyd a chwblhawyd chwe ymchwiliad parthed goruchwylwyr bydwragedd o 1 Awst 2014 hyd 1 Awst 2015. O blith y chwe ymchwiliad a gwblhawyd, nid oedd tri ohonynt wedi'u cynnal o fewn y safon osodedig o 45 diwrnod. Mae cronfa ddata'r AGLl yn cynnwys nodiadau o'r rhesymau dros beidio cwblhau ymchwiliadau o fewn 45 diwrnod, gan osod trywydd archwilio clir. Byddai Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn argymell bod yr AGLl yn gwella amseroldeb ymchwiliadau i fodloni'r safon ofynnol, er mwyn i fydwragedd gael adfer eu gwaith a rhannu'r gwersi a ddysgwyd, fel y dynodwyd gan y bwrdd iechyd.

Cafodd pedair rhaglen ymarfer AGLl eu cefnogi'n llwyddiannus gan y tîm lleol o oruchwylwyr bydwragedd, gan gynnwys un rhaglen allanol. Mae'r tîm o oruchwylwyr bydwragedd hefyd wedi cadw tystiolaeth, trwy gyfrwng cronfa ddata'r AGLl, o'r cymorth tuag at adfer bydwragedd yn lleol, yn ôl yr angen. Siaradodd y tîm adolygu ag un person a oedd yn llawn clod i'r goruchwylydd bydwragedd a roddodd gymorth iddi drwy raglen ymarfer AGLl, ac roedd hi'n hapus â'r hyn a ddysgodd.

Ychydig cyn yr archwiliad, cysylltodd un fydwraig â Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLl i ofyn pryd y byddai'n derbyn adborth yn dilyn ymchwiliad. Roedd y fydwraig yn awyddus i gwblhau ei gwersi atgyfnerthol, ond nid oedd hi'n eglur ynghylch pwyslais y dysgu hwn. Mae'n hanfodol bod bydwragedd yn cael eu hysbysu'n llawn ynghylch pob agwedd ar y broses er mwyn iddynt deimlo'u bod yn cael cefnogaeth tîm goruchwylwyr bydwragedd y bwrdd iechyd.

Hysbyswyd y tîm archwilio bod agweddau negyddol yn gallu bodoli tuag at oruchwyliaeth a gwnaed cynnig i ystyried sut i newid y syniad hwn i un mwy cefnogol ac atgyfnerthol.

Mae'r tîm o oruchwylwyr bydwragedd i'w gweld yn y cyfarfodydd llywodraethu clinigol perthnasol, ac mae'r cyfathrebu rhwng y fydwraig risg ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a'r uwch fydwragedd yn ardderchog. Er mwyn hwyluso proses yr adolygiadau achos, adroddwyd i'r tîm archwilio y byddai'n fanteisiol i oruchwylwyr bydwragedd gael mynediad uniongyrchol at ffurflenni 'Datix' (sef ffurflenni adrodd ar ddigwyddiadau clinigol), a fyddai'n cynorthwyo'r arweinwyr llywodraethu/risg.

## 3.3 Arferion nodedig ac arloesol

### Arferion da

- Cafodd camau arloesol, a arweiniwyd gan y tîm o oruchwylwyr bydwragedd, eu cydnabod gan fydwragedd yn yr ardal glinigol.
- Wedi gweithio ar brosiect i hwyluso gofal ar gyfer menywod sy'n derbyn toriad Cesaraidd dewisol, er mwyn gwella ansawdd a diogelwch a phrofiad y cleifion.
- Adborth da yn sgil profiad bydwragedd o oruchwyliaeth grŵp.
- Darparu sesiynau ailddilysu i baratoi bydwragedd at drosglwyddo o PREP, gan gynnwys cyfraniad llawn at ddogfen adolygiad bob tair blynedd y grŵp gorchwyl a gorffen.
- Dull newydd o archwilio cofnodion a ddatblygwyd gan y tîm o oruchwylwyr bydwragedd.
- Roedd y canlynol yn weithgareddau a wnaed/a gefnogwyd gan y tîm o oruchwylwyr bydwragedd i ddangos y 'gwersi a ddysgwyd' o achosion: sesiynau sefydlu ar gyfer y gweithgor esgor, y dull o reoli meddyginiaethau, SBAR a throsglwyddo dogfennau.
- Cyfraniad ym mhob grŵp perthnasol gan y bwrdd iechyd, e.e. ansawdd a diogelwch, cyfarfodydd trosglwyddo, grŵp polisi a chanllawiau.
- Ymgysylltu'n effeithiol â bydwragedd dan hyfforddiant a thîm Prifysgol Caerdydd.
- Ymgysylltu'n effeithiol â bydwragedd sydd newydd gymhwyso.
- Mae llawer wedi mynychu'r partïon te cadw cofnodion.
- Cynnal taenlen i hwyluso'r cyfathrebu rhwng aelodau o'r tîm o oruchwylwyr bydwragedd i roi dilyniant i'r gefnogaeth i fydwragedd sy'n cwblhau eu gwaith adfer.

## Meysydd i'w gwella

- Dynodi goruchwylydd bydwragedd cyswllt ar gyfer Prifysgol Caerdydd er mwyn cynnal yr arferion da presennol.
- Monitro mynychwyr mewn goruchwyliaeth grŵp am arwyddion eu bod yn teimlo'n anghyfforddus neu wedi eu datgysylltu o'r drafodaeth, a chynnig cymorth un i un.
- Sicrhau bod pob bydwraig sy'n ymgymryd â rhaglen adfer ymarfer yn cael blaenoriaeth o ran cefnogaeth gan dîm o oruchwylwyr bydwragedd y bwrdd iechyd.
- Parhau i farchnata'r agweddau cefnogol a chadarnhaol o oruchwyliaeth bydwragedd wrth adfer bydwragedd i ymarfer eto.
- Bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn ystyried gadael i oruchwylwyr bydwragedd gael mynediad at y system 'Datix' er mwyn cael mynediad uniongyrchol i ddigwyddiadau clinigol i asesu a yw ymarfer bydwreigiaeth yn disgyn dan y safon ddisgwyliedig.
- Parhau i ddatblygu cysylltiadau clòs â phroses ymchwilio Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, pan fo hynny'n briodol. Bydd hyn o gymorth i fydwragedd ac yn atal dyblygu o fewn y broses.

I grynhoi, dangosodd yr archwiliad blynyddol o oruchwyliaeth ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro fod holl safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth wedi cael eu **'Bodloni'**.

## 4 Casgliad

Mae’r AGLI yn ddiolchgar i bob goruchwylydd bydwragedd, presennol a blaenorol, am eu cyfraniad a’u hymrwymiad i ddarparu goruchwyliaeth statudol, ac am y cyfraniad mae goruchwylwyr bydwragedd yn ei wneud i gefnogi bydwragedd i gefnogi menywod. Rydym o’r farn bod y model goruchwylio diwygiedig yng Nghymru, a ddarperir gan dîm o oruchwylwyr bydwragedd sydd â goruchwyliaeth fel eu hunig swyddogaeth, yn sicr o fod er gwell. Ers cyflwyno'r model newydd, bu canlyniadau gwell o ran cwblhau ymchwiliadau, mwy o gydymffurfiaeth â phroses yr Adolygiad Goruchwylio Blynyddol, ac rydym wedi derbyn adborth cadarnhaol gan fydwragedd er bod rhai wedi bod braidd yn negyddol ynghynt ynglŷn â pha mor llwyddiannus fyddai’r prosiect.

Mae’r broses archwilio flynyddol yn dyst i lwyddiannau Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn ystod y flwyddyn. Roedd y tîm archwilio wedi eu sicrhau bod perthynas broffesiynol ragorol rhwng y tîm rheoli a'r goruchwylwyr bydwragedd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, ac mae hyn yn rhoi eglurder i rôl y goruchwylwyr bydwragedd ac yn eu galluogi i gyflawni eu rôl yn unol â rheolau a safonau bydwragedd. Disgrifiwyd y tîm o oruchwylwyr bydwragedd yn gyson fel rhai amlwg iawn a hawdd mynd atynt. Mae'r tîm o oruchwylwyr bydwragedd yn amlwg yn gweithio mewn cydweithrediad â'r holl randdeiliaid perthnasol ac yn cyfrannu'n rhagorol at agenda Cymru gyfan. Mae nifer o feysydd o arferion nodedig y tynnodd y tîm archwilio sylw atynt yn yr adroddiad sy'n enghreifftiau o safonau uchel gwaith y tîm o oruchwylwyr bydwragedd, gan gynnwys cyfraniad at weithgorau allweddol ac amlygrwydd mewn fforymau llywodraethu perthnasol yn yr uned drwyddi draw. Mae'r ganmoliaeth i'r tîm o oruchwylwyr bydwragedd gan y brifysgol, a chan yr uwch dîm mamolaeth a bydwragedd, yn nodedig, ac felly hefyd eu llwyddiant wrth gyflawni Dangosyddion Perfformiad Allweddol 5 a 6 (cefnogaeth i fydwragedd dan hyfforddiant a bydwragedd sydd newydd gymhwyso). Mae'r drefn o baratoi bydwragedd ar gyfer eu hailddilysu yn un sicr ac yn canolbwyntio ar ansawdd y portffolios ac ar ddarparu sesiynau gwybodaeth i'r holl fydwragedd gael eu mynychu.

Heb os nac oni bai, yr her fwyaf wrth ddarparu goruchwyliaeth statudol ar draws y DU fydd cynnal y momentwm a'r ymroddiad i'r rôl wrth i newid deddfwriaethol y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth gydio. Mae'r AGLI yng Nghymru o'r farn ei fod mewn sefyllfa gryfach, ond nid yw'n hunanfodlon. Rydym yn cydnabod y bydd yn rhaid inni weithio'n galed er mwyn cadw goruchwylwyr bydwragedd yn y rôl wrth i gyfleoedd eraill ddod i'r fei. Fodd bynnag, rydym yn hyderus bod gennym dîm o safon a ymunodd â'r model oherwydd eu bod am wneud gwahaniaeth i fenywod a theuluoedd sy'n defnyddio gwasanaethau mamolaeth yng Nghymru, yn ogystal ag i'w cydweithwyr ym maes bydwreigiaeth a all fod yn wynebu ailstrwythuro sylweddol yn y misoedd sydd i ddod.

Dros y deuddeg mis nesaf, mae'r AGLI wedi ymroi i weithio'n agos gyda phenaethiaid

bydwreigiaeth a chynrychiolwyr ym mhob bwrdd iechyd yng Nghymru er mwyn i broses ymchwilio'r goruchwylwyr bydwragedd weddu, lle bo'n bosibl, â phroses ymchwilio'r bwrdd iechyd. Bydd hyn yn gymorth i gynnal ymchwiliadau teg ac amserol sy'n sicrhau diogelwch y cyhoedd ac yn adfer arferion bydwreigiaeth pan ddynodir bod anawsterau. Mae hwn yn gam yn y cyfeiriad cywir ar gyfer rhannu sgiliau ac arbenigedd o broses ymchwilio'r goruchwylwyr bydwragedd. Blaenoriaeth allweddol arall fydd proses gadarn ar gyfer llywodraethu gwybodaeth er mwyn storio cofnodion goruchwylwyr bydwragedd yn ddiogel, yn enwedig cofnodion y broses ymchwilio, sydd yn rhaid i gael eu cadw am 25 mlynedd.

Edrychwn ymlaen at weithio gyda'r tîm cyfredol o oruchwylwyr bydwragedd i ddangos ymhellach bod goruchwyliaeth yn adnodd gwerthfawr ar gyfer y proffesiwn bydwreigiaeth. Defnyddir canfyddiadau'r archwiliad ac elfennau allweddol o'r model i ddatblygu'r model o oruchwylio at y dyfodol a fydd y tu allan i ddeddfwriaeth reoleiddio ac yn canolbwyntio ar gefnogi a datblygu ac ar agweddau arweinyddol y rôl oruchwyliol.

**Atodiad A**

# Awdurdod Goruchwylio Lleol Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

## Rhaglen o Archwiliadau Blynyddol o Safonau er mwyn Goruchwylio Bydwragedd
## Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

**Dyddiad:** **Dydd Mercher, 4 Tachwedd 2015**
**Lleoliad:** **Ystafell gyfarfod fawr, Ysbyty Athrofaol Cymru**

**Tîm adolygu:** **Sue Jose – Swyddog Bydwreigiaeth yr Awdurdod Goruchwylio Lleol,**
**Julie Hurford – Goruchwylydd Bydwragedd profiadol o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**
**Rebecca Lewis – Goruchwylydd Bydwragedd o Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg,**
**Louise Woolley – Adolygydd Lleyg**

| | | **Diwrnod 1** |
|---|---|---|
| **Rhif** | **Amser** | **Gweithgaredd** |
| **1** | 09.30 | **Cyrraedd a Choffi**<br>**Tîm adolygu B a thîm y bwrdd iechyd**<br><br>Gwahoddwyd Cyfarwyddwr Nyrsio – Ruth Walker<br>Uwch Fydwraig – Sarah Spencer<br>Cyfarwyddwr Clinigol – Anthony Griffiths<br>Bwrdd Iechyd ac Arweinydd Llywodraethu/<br>Risg yr adran famolaeth – Fliss Callan<br>Arweinydd Pryderon – Lois Mortimer<br>Cynrychiolydd y fydwraig arweiniol ar gyfer addysg – Lucy Warren<br>Cadeirydd Pwyllgor Cyswllt y Gwasanaethau Mamolaeth – ymddiheuriadau<br>Cyswllt y Cyngor Iechyd Cymuned ar gyfer gwasanaethau mamolaeth – Val Evans<br>Cynrychiolwyr y gweithle – ymddiheuriadau<br>Darpar oruchwylwyr bydwragedd a bydwragedd o'r Rhaglen Paratoi Goruchwylwyr Bydwragedd |
| | 09.30 | Tîm adolygu A yn cyfarfod â'r **Cyfarwyddwr Nyrsio** |

| | | |
|---|---|---|
| **2** | 10.00 | Cyflwyniad trosolwg 15 munud a bwrdd darlunio gan oruchwylwyr bydwragedd lleol a fydd yn cynnwys:<br><br>1. Crynodeb o gynnydd o ran cyflawni'r dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer 2015-2016<br>2. Enghreifftiau o arfer da a llwyddiannau'r tîm o oruchwylwyr bydwragedd<br>3. Enghreifftiau o ddysgu gwersi/cau'r bwlch yn sgil ymchwiliadau goruchwyliaeth<br>4. Meincnodi ar sail gwersi a ddysgwyd o Guernsey a Kirkup<br><br>15 munud o Holi ac Ateb |
| **3** | 10.30<br><br>(30 munud) | Cyflwyniad gan dîm adolygu'r AGLI<br><br>Cyflwyniad Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI i nodi diben proses archwilio goruchwyliaeth 2015-16 a chyfeiriad goruchwyliaeth at y dyfodol a bennwyd gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth |
| **4** | 11.00 (15 munud) | **Egwyl** |
| **5** | 11.15<br>(30 munud) | Tîm adolygu A yn cyfarfod â'r **fydwraig arweiniol ar gyfer addysg a'r fydwraig datblygu arferion**<br><br>Tîm adolygu B yn cyfarfod â **Chadeirydd Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth a chyswllt y Cyngor Iechyd Cymuned ar gyfer gwasanaethau mamolaeth** |
| **6** | 11.45<br>30 munud | Tîm adolygu B yn cyfarfod â'r **tîm o oruchwylwyr bydwragedd** |
| **7** | 12.15<br>(30 munud) | Tîm adolygu A yn cyfarfod â'r **Fydwraig Risg a'r Cydlynydd Cwynion**<br><br>Tîm adolygu B: **Darpar oruchwylwyr bydwragedd o'r Rhaglen Paratoi Goruchwylwyr Bydwragedd** |
| | 12.45<br>(30 munud) | **Cinio** |
| **8** | 13.15<br>(60 munud) | Tîm adolygu A: **Cyfarfod â chynrychiolydd y gweithle**<br><br>Tîm adolygu A: **Cyfarfod â'r Cyfarwyddwr Clinigol** |
| **8** | 13.15<br>(60 munud) | Tîm adolygu B: Taith yr adolygydd lleyg arweiniol o amgylch yr uned<br>I wirio tystiolaeth yn yr amgylchedd clinigol<br><br>Ymgysylltiad â bydwragedd dan hyfforddiant, bydwragedd cymunedol, bydwragedd |
| **9** | 14.15<br>(30 munud) | Tîm adolygu A yn cyfarfod ag **uwch fydwraig**<br><br>Tîm adolygu B yn cyfarfod â **goruchwylwyr bydwragedd am sesiwn adborth** |
| **10** | 14.45<br>(30 munud) | Timau adolygu'r AGLI i grynhoi eu canfyddiadau a drafftio gwybodaeth ar gyfer yr adroddiad |
| | 16.15 | Adborth i'r Pennaeth Bydwreigiaeth a'r goruchwylwyr bydwragedd a fydd yn cynnwys crynodeb o'r diwrnod a'r camau nesaf |

Tîm adolygu A:  Sue Jose – Swyddog Bydwreigiaeth yr Awdurdod Goruchwylio Lleol, Rebecca Lewis – goruchwylydd bydwragedd sydd newydd gymhwyso

Tîm adolygu B: Julie Hurford – goruchwylydd bydwragedd profiadol, Louise Woolley – adolygydd lleyg

## Atodiad B

**Rhestr o Gyfranogwyr y broses o Archwilio Blynyddol – Bwrdd Iechyd Prifysgol**

**Caerdydd a'r Fro**

**Cyfarwyddwr Nyrsio – Ruth Walker**

**Uwch Reolwr Bydwreigiaeth – Sarah Spencer**

**Bydwragedd ymgynghorol – Karen Jewell, Abi Holmes**

**Bydwraig arweiniol yr ystafell esgor – Ruth Guy**

**Rheolwr y Gyfarwyddiaeth – Rachel Burton**

**Cyfarwyddwr Clinigol – Mr Anthony Griffiths**

**Cynrychiolydd y fydwraig arweiniol ar gyfer addysg – Lucy Warren**

**Bydwraig Risg/Llywodraethu – Fliss Callan**

**Bydwraig arweiniol pryderon cleifion – Lois Mortimer**

**Bydwraig datblygu arferion – Jane Grey**

**Cyswllt y Cyngor Iechyd Cymuned ar gyfer gwasanaethau mamolaeth – Val Evans**

**Aelodau o'r tîm o oruchwylwyr bydwragedd – Lindsey Hilldrup, Kim Ashton, Alison**

**Jones,**

**Angharad Oyler, Louise Protheroe-Davies (Rhaglen Paratoi Goruchwylwyr Bydwragedd)**

**<u>Wedi'u cyfarfod gan dîm yr AGIC:</u>**

**Bydwragedd mewn mannau clinigol – gan gynnwys cynrychiolwyr y gweithle**

**Bydwragedd dan hyfforddiant**

**<u>Ymddiheuriadau:</u>**

**Pennaeth Bydwreigiaeth – Suzanne Hardacre**

**Bydwraig arweiniol ar gyfer addysg – Grace Thomas**

**Cadeirydd Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth – Leah Morantz**